Adroddiad ar

Cylch Meithrin Llannerchymedd

Ysgol Gymuned Llannerchymedd
Llannerchymedd
Anglesey
LL71 8DP

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llannerchymedd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llannerchymedd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Llannerchymedd |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Gwen Collins |
| Person â gofal | Anne Williams a Carys Ponsonby |
| Nifer y lleoedd | 30 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 27 plentyn |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 plentyn |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8:30 – 17:30 dydd Llun i ddydd Iau<br>8:30 – 15:30 dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers i'r lleoliad ail gofrestru ar 19/01/2024. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 18/05/2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 01/07/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1. Parhau i ddatblygu cyfleoedd i'r plant ddatrys problemau yn annibynnol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â datblygu a chynllunio ardaloedd dysgu cyfoethog i'w ledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Rhagorol

Mae’r holl blant yn hapus ac yn ymgartrefu’n dda wrth adael eu rhieni. Maent yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, yn dilyn eu diddordebau a gwneud dewisiadau’n llwyddiannus. Maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu yn rhwydd a hyderus, gan ddewis o’r ystod eang o weithgareddau. Mae barn a phenderfyniadau’r plant yn cael eu blaenoriaethu a’u parchu gan ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn hyderus i fynegi pan and ydynt yn barod i fwyta eu ffrwythau ac mae ymarferwyr yn eu cefnogi i barhau i chwarae.

Mae bron bob plentyn yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth rannu syniadau ac ateb cwestiynau syml. Maent yn awyddus iawn i rannu eu profiadau gydag ymarferwyr yn ystod amseroedd cylch, gan wybod y byddent yn dangos diddordeb ac yn gwerthfawrogi’r hyn sydd ganddynt i’w ddweud. O ganlyniad, mae bron bob un yn datblygu perthynas gadarnhaol iawn gyda’r ymarferwyr.

Mae bron bob plentyn yn ymateb yn dda i ganmoliaeth, gyda llawer yn awyddus i rannu eu llwyddiannau ac yn dangos balchder tuag at eu gwaith. Er enghraifft, maent yn gyffroes wrth ddangos eu gwaith creadigol i’r ymarferwyr ac yn ymfalchïo wrth dderbyn clod am eu hymdrechion. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â’r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio’n aeddfed gyda’r gweithdrefnau, fel hunan gofrestru a chadw eu heiddo personol yn yr ardaloedd penodol.

Mae bron bob plentyn yn cymdeithasu’n frwdfrydig ac yn barod i rannu adnoddau. Maent yn cymryd tro ac yn rhannu offer yn aeddfed gyda’u ffrindiau. Er enghraifft, maent yn hapus i gymryd tro wrth ddefnyddio’r sbienddrych i chwilio am anifeiliaid y sw, ac yn cydweithio i guddio’r anifeiliaid er mwyn i’r plentyn nesaf fedru chwilio amdanynt. Maent yn sgwrsio’n hapus wrth chwarae ac yn frwdfrydig i rannu profiadau a dangos pethau sydd wedi ennyn eu diddordeb. Yn ystod amser byrbryd ac amser cinio, mae plant yn cymdeithasu gyda’i gilydd yn naturiol ac yn hapus wrth sgwrsio gyda ffrindiau ac ymarferwyr.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau’n ddiwyd wrth fynd i’r afael â thasgau ac yn arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol yn hyderus. Er enghraifft, mae plant yn ymrwymedig wrth geisio rhyddhau anifeiliaid o’r blociau rhew ac yn ofalgar wrth drin y morthwyl i dorri’r rhew. Mae bron bob plentyn yn chwilfrydig am y byd o’u cwmpas ac yn  defnyddio eu dychymyg i gyfoethogi eu chwarae yn llwyddiannus.. Er enghraifft, maent wrth eu boddau yn gwneud bwyd i’r jiráff yn y cegin fwd, gan ychwanegu dail, perlysiau a phasta sych i’r powlenni.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau yn ôl eu diddordebau ac yn datblygu medrau annibynnol da iawn. Er enghraifft, maent yn helpu i ddidoli cwpanau ac arllwys llefrith yn ystod amser byrbryd. Mae bron bob plentyn yn datblygu annibyniaeth dda wrth ymgymryd a thasgau hunain ofal, fel gwisgo ffedogau a golchi dwylo. Maent yn fodlon cadw offer yn y mannau priodol ar ddiwedd gweithgareddau heb ymyrraeth oedolyn.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron bob un o'r plant yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf yn gweithio'n ddiwyd ar dasgau, gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn hyderus, fel canu rhigymau yn ystod sesiwn torfol a rhifo y llysiau wrth wneud bwyd yn y gegin fwd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn glir ac yn sicrhau bod oedolion a phlant eraill yn eu deall. Maent yn ymateb yn dda i gwestiynau yn ystod sesiwn torfol wrth wrando ar stori am y sw. Mae llawer o blant yn llwyddo i siarad yn hyderus am anifeiliaid y jyngl gan gyfeirio at eu maint, eu lliw a'r synau maent yn ei wneud. Mae bron bob un yn mynegi eu hemosiynau yn synhwyrol ar lafar, wrth iddynt gyfleu eu teimladau os ydynt yn hapus, trist, blin neu swil fel y mwnci.

Gan ddefnyddio amrywiaeth eang o adnoddau mae'r rhan fwyaf o blant yn llwyddo i wneud marciau cynnar yn annibynnol ac yn gwneud datblygiad cynyddol. Er enghraifft, maent yn defnyddio bwrdd gwyn a pin ffelt i greu llun jiráff, cofnodi enw yn y tywod, ymarfer ffurfio llythrennau yn y hylif shafio a defnyddio sialc i gofnodi siapiau a rhifau yn yr ardal allanol.

Mae bron bob un o'r plant yn dangos mwynhad wrth ymdrin â llyfrau. Maent yn dewis llyfr yn annibynnol a'i drin fel darllenydd. Mae'r ardal 'den bren' tu allan yn cynnig man cysurus i ymlacio ac i fwynhau darllen. Mae llawer o'r plant yn  mwynhau rhannu llyfr gyda ffrind neu wrando ar stori gydag ymarferwr. Maent yn ymateb i luniau yn y llyfr yn ardderchog ac yn gallu dwyn i gôf yr hyn sydd yn digwydd nesaf yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn ddeallus ac mewn cyd-destunau perthnasol. Maent yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at bump yn hyderus gydag ychydig ohonynt yn rhifo a didoli gwrthrychau hyd at ddeg yn fedrus. Er enghraifft, wrth bwyso a chyfrifo y nifer o fwyd yn y pecynnau bwyd i'r anifeiliaid yn y siop tu allan.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn llwyddo i ddewis eu offer digidol yn annibynnol. Maent yn eu defnyddio o fewn chwarae penodol gydag hyder cynyddol. Maent yn gwybod sut i reoli teganau electronig, ac yn trin llechen yn fedrus er mwyn dewis apiau addas i chwarae. Mae plant yn dangos rheolaeth gynyddol o'u medrau digidol wrth geisio lliwio cymeriadau ac

wrth dynnu lluniau yn yr ysgol goedwig. Mae hyn yn cael effaith buddiol ar eu datblygiad digidol.

Mae bron bob un o’r plant yn llwyddo i ddangos datblygiad cynhwysfawr yn eu sgiliau corfforol. Er enghraifft, mae ganddynt medrau da wrth reidio offer amrywiol ar yr iard ac wrth adeiladu den gydag offer rhydd mawr fel, tarpolin, conau, peipiau plastig, cratiau gwag er mwyn creu cuddfan rhag yr anifeiliaid peryglus.

Mae bron pob un o’r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol y tu mewn a thu allan. Mae ganddynt fynediad llawn i amrywiaeth gyfoethog o adnoddau addas a phwrpasol sydd yn cynnig cyfleoedd i ymarfer medrau fel paentio, torri a gludo, gweithio gyda deunyddiau naturiol, ac arbrofi gyda lliw a siâp. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau creadigol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dod i ddeall eu hemosiynau ac yn cychwyn parchu teimladau eraill. Maent yn hyderus wrth drafod eu hemosiynau yn ystod amser cylch ac yn cynnig syniadau ar sut mae cymeriadau mewn stori yn teimlo. Mae’r rhan fwyaf yn datblygu sgiliau moesol da ac yn dysgu bod yn gwrtais gyda’i gilydd, er enghraifft drwy ddweud ‘plîs’ wrth ofyn am gael tro wrth chware gyda ffrind.

Mae rhan fwyaf o’r plant yn gallu cydweithio gydag oedolyn er mwyn ceisio datrys problemau. Er enghraifft, wrth geisio creu blodau lliwgar gan ddilyn cyfarwyddiadau pendant, mawr, canolig bach ac wrth geisio arllwys y dŵr o un cynhwysydd i’r llall. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cael digon o gyfleoedd i wneud penderfyniadau er mwyn datrys problemau’n annibynnol, er enghraifft drwy ddewis offer addas yn annibynnol wrth gwblhau tasgau.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau cadarn er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu. Maent yn defnyddio’r arferion o’u hyfforddiant ar ddiogelu plant yn effeithiol ac yn deall eu dyletswyddau’n dda. Mae ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ac maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau’n drylwyr ac yn sicrhau bod rhieni’n arwyddo i dystio eu yn ymwybodol o’r digwyddiad. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol. Mae ymarferwyr yn gweithredu prosesau cadarn er mwyn atal lledaenu heintiau. Er enghraifft, maent yn annog y plant i olchi eu dwylo fel bo angen ac yn dilyn arferion effeithiol wrth drin bwyd a newid cewynnau. Maent yn hyrwyddo bwyta’n iach a gweithgareddau ymarfer corff yn llwyddiannus ac yn sicrhau cyfleoedd buddiol i dreulio amser tu allan yn yr awyr iach. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn ffurfio perthnasau cadarnhaol gyda’r plant. Maent yn siarad gyda’r plant yn dyner ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Maent yn defnyddio strategaethau cyson i

hybu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol y plant yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro ac yn rhoi esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r ymarferwyr yn canmol y plant yn rheolaidd a dathlu eu hymdrechion yn gyson. O ganlyniad, mae plant yn datblygu eu hunan-hyder ac yn magu balchder yn eu gwaith. Mae ymarferwyr yn modelu medrau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn bwydo a modelu iaith raenus yn gyson. Maent yn cefnogi plant i ddatblygu parch at eraill drwy fodelu ac annog cwrteisi a rhoi canmoliaeth pan mae'r plant yn garedig gyda'u ffrindiau neu'n dweud 'diolch' ac 'os gwelwch yn dda'.

Mae ymarferwyr yn dilyn trefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau ac anghenion unigol cyn i'r plant gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion pob plentyn. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn gwybod pryd i ddarparu mwy o gefnogaeth. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod cefnogaeth ychwanegol yn cael ei darparu i blant sydd angen mwy o amser wrth newid o un weithgaredd i'r llall fel eu bod yn ymuno mewn gweithgareddau newydd yn eu hamser eu hunain. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i gyfeirio plant am gymorth gan asiantaethau allanol os oes angen. Mae ymarferwyr yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni ac yn rhannu gwybodaeth gyson am ddatblygiad y plant trwy negeseuon ar lafar ar ddiwedd pob sesiwn a nosweithiau rhieni rheolaidd.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

O dan arweiniad medrus yr arweinwyr, mae ymarferwyr yn cynllunio i ddarparu profiadau diddorol a dychmygus sy'n llwyddo i ennyn diddordeb a bodloni anghenion pob plentyn i safon uchel. Maent yn cynllunio trosolwg o gyfleoedd addysgu sy'n hyblyg ac o ganlyniad, maent yn llwyddo i sicrhau cyfleoedd euraidd i ymateb ar fyr rybudd i awgrymiadau neu arweiniad plant. Er enghraifft, maent yn ymateb yn gadarnhaol i syniad plant sy'n awyddus i gario y bwyd o'r siop fel eu bod yn gallu bwydo'r anifeiliaid cyn mynd ar drên i'r jyngl. Mae hyn yn gryfder yn y ddarpariaeth.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i gynnig amgylchedd ysgogol a heriol, tu mewn a thu allan, sy'n annog ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad y plant. Mae ymarferwyr yn gwybod pryd i ymyrryd a phryd i gamu'n yn ôl yn ystod chwarae'r plant. Maent yn cefnogi'r chwarae mewn modd sensitif, gan addasu eu cefnogaeth yn unol ag anghenion y plant. Maent yn gwenud defnydd da o'u dealltwriaeth am ddatblygiad plant i'w herio i feddwl a datrys problemau.

Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau cyfoethog sy'n caniatáu i'r plant ymarfer eu medrau llythrennedd a chyfathrebu y tu mewn ac allan. Maent yn gwneud y gorau o bob

cyfle i gefnogi ac ymestyn dealltwriaeth y plant gan gynnwys y rhai gyda anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn cwestiynnu plant yn effeithiol ac yn llwyddo i gyfeirio at brofiadau balenorol er mwyn atgyfnerthu yr addysgu ymhellach, er enghraifft wrth eu cwestiynnu am anifeiliaid y jyngl. Maent yn trafod gan ddefnyddio iaith lafar raenus, yn gwrando ar ymatebion y plant ac yn defnyddio eu canfyddaidau fel sbardun i annog y dysgu ymhellach.  Er enghraifft, wrth drafod os yw gwddf jiraff yn ddigon hir i gyrraedd y bwyd maent yn herio'r plant i feddwl am hyd gwddf eliffant sy'n arwain at gymharu gyddfau anifeiliaid a thrafodaeth am fesur. Mae llythrennau a geiriau i'w gweld ym mhob ardal gyda'r ymarferwyr yn cyfeirio atynt yn effeithiol iawn er mwyn atgyfnerthu'r dysgu.

Yn yr un modd, mae rhifedd yn cael ei gyfarch yn naturiol ym mhob ardal y tu mewn ac allan. gydag ychydig o'r plant hŷn yn llwyddo i leoli rhifau 1-10 mewn trefn yn gwbl annibynnol. Maent yn manteisio ar cyfleoedd i atgyfnerthu a datblygu medrau digidol y plant. Er enghraifft, maent yn annog plant i ddefnyddio llechen electroneg i dynnu llun anifailiaid cafodd eu creu allan o ddail yn yr ysgol goedwig. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd da i ddatblygu medrau corfforol mawr a mân y plant yn effeithiol iawn.

Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn eu chwarae beunyddiol ac yn ystod amseroedd cylch. Maent yn eu annog i aros eu tro i ganu yn annibynnol, neu wrth rannu y binoculars pan yn chwilio am yr anifeiliaid ar draws yr iard. Mae'r gweithredoedd yma yn cael eu modelu a'u atgyfnerthu'n rheolaidd gan ymarferwyr ac yn cael effaith dda iawn ar ddatblygiad moesol a chymdeithasol y plant.

Mae safon uchel iawn y ddarpariaeth ac adnoddau yn gwbwl hafan y tu mewn a thu allan. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd dychmygus o'r holl wagle i gefnogi datblygiad y plant yn eu medrau.

## Yr amgylchedd:  Rhagorol

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith i wirio, monitro a rheoli unrhyw beryglon posibl yn effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu'r peryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal unrhyw risgiau i blant, ac mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol priodol. Maent yn mynd i'r afael ag unrhyw beryglon sy'n cael eu canfod yn gyflym ac yn effeithiol. Maent yn cynllunio'n drylwyr ar gyfer gweithgareddau lle bo'r plant yn cymryd risgiau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn cynllunio sesiynau lle mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddefnyddio llif a morthwyl, cyfleoedd i ddringo ar offer pwrpasol a sesiynau yn y goedwig.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn braf a chyfforddus gyda digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Maent yn arddangos esiamplau o waith y

plant a ffotograffau ar y waliau, sy'n creu ymdeimlad da o berthyn. Mae'r ardaloedd chwarae wedi'u trefnu'n effeithiol dros ben gydag ystod eang o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol a gwrthrychau go iawn. Mae hyn yn rhoi digon o gyfleoedd i blant arbrofi, archwilio ac i ddysgu am y byd o'u cwmpas er enghraifft, wrth defnyddio offer adeiladu go iawn, darnau pren i'w hoelio a phlannu blodau/planhigion. Mae peiriannau a gwrthrychau go iawn yn yr ardal chwarae rôl yn helpu'r plant i drin offer yn ofalgar ac i ddatblygu sgiliau annibyniaeth er enghraifft, drwy ymarfer arllwys dŵr a defnyddio offer cegin.

Mae arweinwyr wedi datblygu'r ardaloedd chwarae tu allan i gynnig amrywiaeth rhagorol o weithgareddau a chyfleodd pwrpasol i blant chwarae a defnyddio eu dychymyg. Er enghraifft, maent wedi creu ardaloedd plannu, a chwrs antur gydag offer dringo a 'siop llysiau' yn yr ardal chwarae rôl tu allan sy'n cynnwys llysiau go iawn. Mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi'r plant i ddatblygu eu medrau corfforol yn effeithiol iawn ac yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt arbrofi a chwarae rôl yn naturiol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod wych o adnoddau ac offer diddorol ar gael yn yr ardaloedd tu mewn. Mae'r rhain o ansawdd dda iawn ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae ymarferwyr yn cadw cofnod trylwyr o bryd mae'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau'n cael eu glanhau. Mae hyn yn digwydd yn rheolaidd er mwyn sicrhau lefel uchel o lendid.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae arweinwyr yn brofiadol iawn ac yn gosod disgwyliadau uchel i'r ymarferwyr. Mae hyn yn cael ei weinyddu drwy fodelu a thrafod agored gyda staff. Mae ganddynt weledigaeth gadarn ac mae pawb yn eu gweithredu'n feunyddiol. Mae hyn yn cyfrannu'n fedrus at ethos hapus a Chymreig y lleoliad. Mae polisiau'r lleoliad yn glir, ac yn rhoi gwybodaeth drylwyr i ymarferwyr. Mae hyn yn eu galluogi i ddilyn gweithdrefnau'r lleoliad yn effeithiol iawn ac yn helpu'r lleoliad i redeg yn esmwyth.

Mae arweinwyr yn gweithredu systemau recriwtio diogel ac mae ganddynt drefniadau effeithiol i werthuso perfformiad ymarferwyr. Mae trefniadau goruchwyliaeth wedi eu sefydlu'n gadarn, sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn cael cyfle i drafod anghenion hyfforddi unigol yn ôl eu blaenoriaethau personol ac anghenion datblygiad y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn fedrus a trwyadl. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr ymdeimlad cartrefol a chroesawgar sydd yn y lleoliad, a'u gallu i roi'r deilliannau gorau i blant.

Mae cyfarfodydd misol y pwyllgor rheoli yn cael eu hamserlennu'n effeithiol. Mae ganddynt agenda sy'n nodi'r camau gweithredu, cyfrifoldebau ,ac mae ffiniau amser yn glir i bawb. Mae'r drefn yma yn effeithiol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at sicrhau ansawdd uchel o addysg a gofal i blant.

Mae arweinwyr yn sicrhau goruchwyliaeth ddiogel wrth dderbyn a gollwng y plant ar ddechrau a diwedd sesiynau. Mae hyn oll yn cael effaith llwyddiannus ar greu gweithle diogel sy'n rhoi blaenoriaeth ar ddiogelu plant. Mae ethos gynhwysol y lleoliad yn cael ei fodelu a'i yrru gan arweinwyr, ac mae ymarferwyr yn adrodd eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymdrechion y plant yn cael eu cydnabod gyda ymatebion cadarnhaol i'w clywed yn ystod tasgau a chwarae rhydd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyllid yn cael ei neilltuo yn hynod effeithiol er mwyn cwrdd ag anghenion staffio, plant ac adnoddau o fewn y lleoliad. Mae arweinwyr yn gweithio'n feddylgar wrth sicrhau grantiau. Mae hyn yn cael effaith cynhwysfawr ar welliant mewn ansawdd gofal, chwarae a dysgu.

Mae arweinwyr yn sicrhau trefniadaeth hunan werthuso sy'n bwrpasol er mwyn datblygu a gwella'r hyn maent yn llwyddo i gynnig. Mae'r adroddaid hunan werthusiad yn ddogfen byw ac yn cael ei thrafod yn rheolaidd gan y staff wrth iddynt ei hadolygu a gwneud gwelliannau neu addasiadau sydd yn cyfrannu yn werthfawr at holl agweddau y lleoliad.

Mae staff yn cydweithio gydag ystod o bartneriaethau er mwyn cyfrannu'n gadarnhaol at wella iechyd, dysgu a lles y plant. Er enghraifft, athrawon arbenigol, asiantaethau proffesiynol a mudiadau cefnogol. Mae gan ymarferwyr berthynas gwerthfawr gyda rhieni. Mae arweinwyr yn cymryd rôl eiriolwyr mewn achosion ble mae angen cefnogaeth ar deuluoedd i wella darpariaeth neu adnoddau sy'n cyfrannu at les ac addysg eu plant.. Mae gan arweinwyr bartneriaeth hynod effeithiol â'r ysgol gynradd leol. Mae'r cydweithio yn sicrhau dealltwriaeth cynhwysfawr o anghenion y plant wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2025